**COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

**Dyddiad y penderfyniad:**

22 Medi 2022

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

22 Medi 2022

**Penderfyniad:**

CAFFAEL CONTRACT AROLYGU A DADANSODDI ASBESTOS

Cymeradwyo caffaeliad Contract Arolygu a Dadansoddi Asbestos **.**

**Bwriad y penderfyniad:**

Roedd y penderfyniad yn ymwneud â chael cymeradwyaeth i Gyngor Sir Ddinbych ddechrau proses gaffael ac ymrwymo i gontract gwaith gyda Chontractwr Arolygu a Dadansoddi Asbestos. Y rheswm dros ofyn am y gymeradwyaeth oedd oherwydd bod y contract yn un pwrpasol ac wedi'i drefnu am gyfnod o 12 mis gyda chyfle i'w ymestyn wedyn bob 12 mis hyd uchafswm o 10 mlynedd yn ddibynnol ar berfformiad.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Y rheswm dros y penderfyniad hwn oedd galluogi'r Cyngor i gynnal cytundeb contractiol gyda chontractwr Arolygu a Dadansoddi Asbestos er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth Asbestos parhaus.

Mae gan y Cyngor gytundeb cyfredol gyda North Star Environmental, yn dilyn ymarfer caffael a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2018. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi penderfynu y byddai dull hyblyg a mwy syml yn ffafriol. Yn dilyn ymgynghoriad â'r timau Cyfreithiol a Chaffael, teimlwyd y byddai Contract yn ôl y Gofyn yn hwyluso perthynas weithio well rhwng partneriaid a chaniatáu ar gyfer gwasanaeth mwy pwrpasol.

Bydd y cytundeb fframwaith cyfredol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a North Star Environmental yn dod i ben ar 11 Tachwedd 2022. Mae wedi'i ymestyn tan 31 Ionawr 2023 i ganiatau digon o amser i gwblhau'r broses gaffael.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim wedi'u datgan.

**Ymgynghoriad:**

| |
|---|
| Cyflwynwyd yr adroddiad ynghyd â'r ffurflen gomisiynu, yr asesiad o effaith ar les a'r cynnig buddion cymunedol i'r grŵp penderfyniadau dirprwyedig mandadol, y Swyddog Arweiniol ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau, Gwyneth Ellis a chymerwyd camau yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd. Mae'r adroddiad sy'n cyd-fynd â'r penderfyniad hwn wedi'i anfon at bob aelod o'r Cyngor. |

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

| |
|---|
| Gweler y Cynllun Dirprwyo. |